**Tachwedd 2019 Rhaglen brechiad y ffliw mewn ysgolion – Cwestiynau ac atebion y llinell gyngor**

| | **Cwestiwn** | **Ateb** |
|---|---|---|
| 1 | Pam mae brechiad y ffliw fy mhlentyn i yn yr ysgol gynradd wedi cael ei ganslo? | Mae oedi wedi bod gyda dosbarthu sawl casgliad o frechiad y ffliw trwy chwistrell trwyn (Fluenz Tetra®) ar gyfer y DU.<br>Mae'r oedi yma'n effeithio ar bob un o wledydd y DU.<br>Rydym yn rhagweld y bydd y rhaglen ysgolion yn dychwelyd at y drefn arferol ar ôl i'r stoc ddisgwyliedig o frechiadau gyrraedd. |
| 2 | Mae gan fy mhlentyn i ddiabetes (neu gyflwr iechyd tymor hir arall) – sut gall gael brechiad y ffliw gan fod ei sesiwn yn yr ysgol wedi cael ei ganslo? | Mae'n bwysig gwarchod eich plentyn rhag y ffliw.<br>Cysylltwch â meddygfa eich plentyn i drefnu iddo gael brechiad y ffliw yno.<br>Mae'r ffliw yn gallu bod yn ddifrifol, yn enwedig i blant sydd â chyflwr tymor hir. Felly cysylltwch â'r feddygfa yn fuan. |
| 3 | Mae fy meddygfa i'n dweud nad oes digon o frechiad y ffliw trwy chwistrell trwyn ar gael yno i frechu fy mhlentyn dwy neu dair oed. | Bydd meddygfeydd yn gallu archebu mwy o frechiad y ffliw trwy chwistrell trwyn yn ystod yr wythnosau nesaf.<br>Cysylltwch â meddygfa eich plentyn eto yr wythnos nesaf. |
| 4 | Mae fy meddygfa i'n dweud nad oes digon o frechiad y ffliw trwy chwistrell trwyn ar gael yno i frechu fy mab/merch ddiabetig (neu gyflwr iechyd tymor hir arall). | Mae'r ffliw yn gallu bod yn ddifrifol, yn enwedig i blant sydd â chyflwr tymor hir. Mae'n bwysig gwarchod eich plentyn rhag y ffliw.<br>Gofynnwch i'ch meddygfa a oes posib i'ch plentyn gael pigiad brechiad y ffliw. Os yw'n well gennych chi aros am frechiad y ffliw trwy chwistrell trwyn, bydd meddygfeydd yn gallu archebu mwy o'r brechiad hwn yn ystod yr wythnosau nesaf. |
| 5 | Cafodd sesiwn brechiad y ffliw fy mhlentyn yn yr ysgol gynradd ei ganslo - pam nad ydynt yn gallu rhoi pigiad brechiad y ffliw i'r plant yn ei le? | Y brechiad y ffliw a argymhellir ar gyfer plant dwy i 17 oed yw brechiad y ffliw trwy chwistrell trwyn oherwydd mae hwn yn gweithio'n well mewn plant.<br>Rydyn ni'n disgwyl i'r oedi gyda'r cyflenwad o frechiad y ffliw trwy chwistrell trwyn gael ei ddatrys ac i'r rhaglen ysgolion ailddechrau pan fydd cyflenwad arferol o'r brechiad ar gael eto.<br>Byddwch yn cael gwybod pan fydd sesiwn brechiad y ffliw ysgol gynradd eich plentyn wedi cael ei aildrefnu.<br>Os oes gan eich plentyn gyflwr iechyd tymor hir mae'n wynebu risg gynyddol o'r ffliw a'i gymhlethdodau, felly dylech gysylltu â'i feddygfa nawr i drefnu iddo gael brechiad y ffliw gan fod brechiad y ffliw trwy chwistrell trwyn ar gael i blant sydd â chyflwr iechyd tymor hir mewn meddygfeydd. |

| | | |
|---|---|---|
| 6 | Mae ysgol gynradd fy mhlentyn i wedi cael gwybod y bydd ei sesiwn yn cael ei aildrefnu ar gyfer mis Ionawr. Ydi hyn yn rhy hwyr? | Bydd cael brechiad y ffliw ym mis Ionawr yn helpu i warchod eich plentyn rhag y ffliw yr un fath. Fel rheol, mae'r ffliw yn dechrau ymddangos yng Nghymru o ganol mis Rhagfyr tan fis Mawrth/Ebrill.<br><br>Mae plant sydd â chyflwr iechyd tymor hir yn wynebu risg gynyddol o'r ffliw a'i gymhlethdodau a dylech gysylltu â'u meddygfa nawr i sicrhau eu bod yn cael brechiad y ffliw. Y plant yma sydd fwyaf agored i niwed y ffliw a'i gymhlethdodau felly mae'n bwysig eu bod yn cael brechiad y ffliw cyn gynted â phosib. |
| 7 | Oes gwledydd eraill yn y DU yn dal i gynnig brechiad y ffliw yn yr ysgol gynradd? | Mae'r broblem gyda chyflenwad brechiad y ffliw trwy chwistrell trwyn yn effeithio ar holl wledydd y DU. Mae pob gwlad yn rhoi blaenoriaeth i blant sy'n wynebu'r risg fwyaf o gael y ffliw a'i gymhlethdodau, sef plant sydd â chyflyrau iechyd tymor hir a phlant 2 a 3 oed.<br><br>Gall y trefniadau yn y gwahanol wledydd amrywio oherwydd y lefelau stoc presennol. |
| 8 | Ai BREXIT sy'n gyfrifol am y broblem hon gyda chyflenwad? | Na.<br><br>Y rheswm am hyn yw'r oedi mewn un rhan o'r broses weithgynhyrchu ar gyfer y brechiad penodol yma ac nid yw'n gysylltiedig o gwbl â BREXIT. |
| 9 | Oes angen i mi drafferthu rhoi'r brechiad i fy mhlentyn o gwbl? | Mae'r ffliw yn gallu bod yn ddifrifol, yn enwedig mewn plant, felly mae'n bwysig bod eich plentyn yn cael ei warchod unwaith mae cyflenwad ar gael.<br><br>Mae plant sydd â chyflwr iechyd tymor hir yn wynebu risg gynyddol o'r ffliw a'i gymhlethdodau a dylech gysylltu â'u meddygfa nawr i sicrhau eu bod yn cael brechiad y ffliw. Y plant yma sydd fwyaf agored i niwed y ffliw a'i gymhlethdodau felly mae'n bwysig eu bod yn cael brechiad y ffliw cyn gynted â phosib. |
| 10 | Pryd byddaf yn gwybod pryd mae fy mhlentyn yn gallu cael ei frechiad yn yr ysgol? | Pan fyddwn yn gwybod mwy am y cyflenwad ar gael eto byddwn yn rhoi gwybod i bobl drwy gyfrwng yr ysgol. |
| 11 | Oes effaith ar gyflenwi brechiadau eraill? | Nac oes.<br><br>Y rheswm am hyn yw'r oedi mewn un rhan o'r broses weithgynhyrchu ar gyfer y brechiad y ffliw penodol yma trwy chwistrell trwyn. Nid oes unrhyw frechiadau neu feddyginiaethau eraill wedi'u heffeithio gan hyn. |